# POLISI A GWEITHDREFN YNGHYLCH MONITRO MYFYRWYR YMCHWIL

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 6.0 |
| **Dyddiad a gymeradwywyd gan y Senedd / ASQC** | Cymeradwywyd gyntaf: 25.04.2018 (ASQC)<br>Fersiwn gyfredol: 25.05.2024 (Mân newidiadau) (ASQC) |
| **Dyddiad Dod I Rym** | 01.08.2024 |
| **Perchennog Y Ddogfen** | Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) |
| **Cysylltu** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoleiddio Rhiant** | Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr |
| **Dogfennau Cysylltiedig** | Polisi A Gweithdrefn Ynghylch Cynnydd Neu Ymgysylltiad Anfoddhaol<br>Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil)<br>Polisi A Gweithdrefn Ymyrraeth Er Mwyn Cefnogi Myfyrwyr<br>Polisi Gohirio Astudiaethau (Myfyrwyr Ymchwil) |

# CYNNWYS


Polisi .... 1
1. Datganiadau Cyffredinol .... 1
2. Eich Cynllun Ymchwil a’ch Cynllun i Gyflawni’r Traethawd .... 2
3. Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi .... 3
4. Digwyddiadau Monitro Cynnydd .... 3
5. Adolygiad Cychwynnol .... 4
6. Adolygiadau naw mis a blynyddol .... 5
7. Adolygiad Interim .... 6
Gweithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil .... 7
8. Trosolwg .... 7
9. Adolygiad Cychwynnol .... 7
10. Adolygiad 9 Mis/Blynyddol .... 9
11. Adolygiad Cyfamserol .... 10
Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch .... 15

# POLISI A GWEITHDREFN YNGHYLCH MONITRO MYFYRWYR YMCHWIL

## Polisi

### 1. Datganiadau Cyffredinol

1.1 Mae'r Polisi a'r Weithdrefn hon yn berthnasol i bob myfyriwr ymchwil drwy gydol cyfnod eu rhaglenni, ar wahân i'r canlynol:

.1 Doethuriaethau proffesiynol DClinPsy a DedPsy;

.2 cam addysgu doethuriaethau proffesiynol neu integredig eraill y mae Cyfarwyddwr y Rhaglen wedi cytuno arnynt.

1.2 Fel myfyriwr ymchwil, chi sy'n gyfrifol am eich cynnydd academaidd yn ogystal â'ch hyfforddiant fel ymchwilydd proffesiynol. Bydd eich statws o fod wedi cofrestru ar gyfer eich rhaglen gradd ymchwil yn amodol ar gynnydd digonol o ran eich gwaith.

1.3 Mae 'cynnydd' yn golygu cynnal ymchwil ar gyfradd ddigonol o fewn yr amserlen reoleiddiol, ynghyd â chynhyrchu allbynnau o safon er mwyn cyflawni'r radd yn llwyddiannus.

1.4 Mae polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer monitro a goruchwylio yn eich cefnogi i'r diben hwn. Dylai adolygiadau ac adborth rheolaidd o'r rhain eich helpu i'ch gwneud mor debygol â phosibl o gyflawni eich rhaglen gradd ymchwil. Hefyd, mae goruchwyliaeth a chyfarfodydd adolygu yn cynnig trywydd archwilio o bwyntiau ymgysylltu ffurfiol a chytundebau ynglŷn â thasgau, rhwymedigaethau ac unrhyw bryderon a godir gan eich goruchwylwyr, eich adolygwyr, neu gennych chi eich hun.

1.5 Mae'r Polisïau a Gweithdrefnau ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil yn seiliedig ar y disgwyliadau canlynol:

.1 bydd adborth gan y rheiny sy'n adolygu eich gwaith yn onest, yn gywir, yn amserol ac yn adeiladol;

.2 caiff y gwaith o gynhyrchu eich traethawd ymchwil ei gefnogi gyda gwaith perthnasol sy'n cael ei gyflwyno a'i adolygu yn y cyfamser;

.3 caiff hyfforddiant a datblygiad proffesiynol eu hintegreiddio yn eich Cynllun Ymchwil, i ategu eich ymchwil a datblygiad eich gyrfa;

.4 bydd dull tryloyw o israddio a/neu wahardd, a gweithdrefnau clir ar gyfer apelio os nad yw'r cynnydd yn bodloni'r gofynion;

.5 caiff gofynion monitro a meini prawf ar gyfer cofrestriad parhaus eu cyfathrebu'n glir;

.6 caiff problemau o ran perfformiad eu canfod a'u datrys yn unol â gweithdrefn berthnasol y Brifysgol.

1.6 Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion y Weithdrefn ar gyfer Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil, bydd y Brifysgol yn adolygu eich cofrestriad yn unol â Gweithdrefn y Brifysgol ynghylch Cynnydd Anfoddhaol neu Ymgysylltu (Myfyrwyr Ymchwil).

1.7 Os nad yw eich cynnydd yn ddigonol, bydd eich Ysgol yn adolygu dyfodol eich cofrestriad yn unol â'r Weithdrefn a'r Polisi ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltu Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil).

1.8 Pe bai amgylchiadau personol yn codi sy'n amharu ar eich cynnydd, dylech chi roi gwybod i'r Brifysgol am hynny yn unol â'r Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil). Mae disgrifiad o'r atebion posibl, gan gynnwys addasiadau i'r Weithdrefn ynghylch Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil, ar gael yn y polisi.

1.9 Os oes gan yr Ysgol bryderon sy'n cynyddu ynghylch iechyd meddygol, seicolegol neu emosiynol unrhyw fyfyriwr, gallai Pennaeth yr Ysgol gychwyn y Polisi a Gweithdrefn Ymyrraeth er mwyn Cefnogi Myfyrwyr.

1.10 Er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau, dylai Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig ddirprwyo ei rôl a ddiffinnir o dan y polisi a'r weithdrefn hon i aelod arall o'r staff academaidd ar gyfer monitro myfyrwyr y mae'n eu goruchwylio.

1.11 Mae'r term 'myfyriwr' yn cynnwys ymgeiswyr staff sydd wedi cofrestru am raddau ymchwil.

## 2. Eich Cynllun Ymchwil a'ch Cynllun i Gyflawni'r Traethawd

2.1 Mae'ch Cynllun Ymchwil yn hanfodol i sut mae'r Brifysgol yn monitro eich cynnydd.

2.2 Dylech ystyried eich Cynllun Ymchwil yn ddogfen fyw sy'n datblygu dros amser ac sy'n ganolog i'ch astudio, eich ymchwil, eich traethawd a'ch datblygiad proffesiynol fel ymchwilydd. O'r dechrau cyntaf, dylech ystyried eich Cynllun Ymchwil yn strategaeth ar gyfer cwblhau eich prosiect yn ystod y cyfnod o fod yn aelod cofrestredig sy'n talu ffioedd, a datblygu eich sgiliau a chymwyseddau proffesiynol. [*Gweler y nodyn am ganllawiau ar gyfer y Cynllun Ymchwil*]

2.3 Mae Cynllun Ymchwil y cytunwyd arno yn elfen hanfodol o'ch Adolygiad Cychwynnol[1]; caiff ei adolygu a'i ddiweddaru ym mhob digwyddiad monitro cynnydd. Dylid ei addasu er mwyn cyfrif am ddatblygiadau neu amgylchiadau'r cyfnodau blaenorol neu'r rhai i ddod.

[1] Digwyddiad monitro cyntaf y Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil.

2.4 Wrth i chi baratoi i newid eich statws o fod yn ‘gofrestredig ac yn talu ffioedd’ i ‘draethawd wedi’i gwblhau’, caiff eich Cynllun Ymchwil ei amnewid am Gynllun Cyflawni’r Traethawd. Bydd hyn yn amlinellu amserlen glir ar gyfer llunio’r drafft cyntaf a golygu eich traethawd. Os ydych yn fyfyriwr PhD llawn-amser fydd yn talu ffioedd yn ystod eich pedwaredd flwyddyn, dylech amnewid eich Cynllun Ymchwil am Gynllun Ymchwil a Chyflawni’r Traethawd cyfunedig wrth i chi ddechrau eich pedwaredd flwyddyn.

2.5 Os ydych yn fyfyriwr PhD rhan-amser neu’n fyfyriwr doethuriaeth broffesiynol, neu os ydych yn astudio ar gyfer MPhil, caiff eich Cynllun Ymchwil ei amnewid am Gynllun Cyflawni’r Traethawd ar gam cyfatebol wrth i’ch statws o ‘dalu ffioedd’ ddirwyn i ben.

## 3. Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi

3.1 Bydd Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant (TNA) yn llywio pob iteriad o’ch Cynllun Ymchwil y byddwch yn ei gyflwyno yn rhan o’r Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod eich anghenion am hyfforddiant yn cael eu hadolygu dwywaith y flwyddyn.

3.2 Bydd y Dadansoddiad yn cefnogi’r broses o ddatblygu agenda cynyddol ar gyfer hyfforddiant drwy gydol eich rhaglen er mwyn rhoi’r sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen i chi ar gyfer eich traethawd, a’ch datblygiad ehangach fel ymchwilydd. [*gweler nodyn cyfarwyddyd y Dadansoddiad*]

## 4. Digwyddiadau Monitro Cynnydd

4.1 Caiff eich cynnydd ar eich rhaglen gradd ymchwil ei fonitro’n ffurfiol drwy gyfres o ddigwyddiadau yn unol â’r Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil.

4.2 Mae’r Weithdrefn hon yn canolbwyntio ar fyfyrwyr ac yn cael ei llywio yn ôl ei hamcanion. Mae’n cyd-fynd â’r monitro parhaus sy’n rhan o’ch goruchwyliaeth reolaidd. Mae’n cynnwys y digwyddiadau monitro canlynol:

.1 Adolygiad cychwynnol (dim ond yn y flwyddyn gyntaf);

.2 Adolygiad Naw Mis ac Adolygiad Blynyddol wedyn (bob blwyddyn);

.3 Adolygiad Cyfamserol (hanner ffordd trwy’r cyfnod rhwng Adolygiadau Blynyddol).

4.3 Mae’r digwyddiadau monitro yn rhoi cyfleoedd rheolaidd er mwyn i’ch Ysgol asesu ansawdd y gwaith yr ydych yn ei gynhyrchu, a chyfradd eich cynnydd yn ôl yr amcanion a’r amserlen a amlinellir yn eich Cynllun Ymchwil. Hefyd, bydd y digwyddiadau’n rhoi’r cyfle i chi adrodd am unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol wrth y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, gan eich atgoffa o sut mae defnyddio gwasanaethau cefnogi myfyrwyr.

4.4 Bydd eich cynnydd yn cael ei fonitro hyd nes y byddwch yn cyflwyno'ch traethawd ymchwil neu y byddwch yn tynnu'n ôl o'r Brifysgol; unwaith y byddwch wedi cyrraedd diwedd eich rhaglen, bydd eich Ysgol yn cytuno ar gynllun priodol i fonitro eich cynnydd hyd at ei gwblhau, a all fod yn amrywiad ar y digwyddiadau monitro safonol.

4.5 Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser, bydd eich digwyddiadau monitro yn dilyn yr un amserlen â’r un ar gyfer myfyrwyr amser llawn. Bydd eich cynnydd yn cael ei asesu ar sail eich Cynllun Ymchwil fydd yn ystyried hyd cyffredinol y rhaglen a’ch statws rhan-amser.

## 5. Adolygiad Cychwynnol

5.1 Yr Adolygiad Cychwynnol yw’r digwyddiad monitro cyntaf ac mae’n sail gadarn ar gyfer eich rhaglen o ymchwil a hyfforddiant, drwy asesu eich anghenion am hyfforddiant a chadarnhau Cynllun Ymchwil manwl a thrylwyr. Ar y cam hwn, bydd y Cynllun Ymchwil yn cynnwys amserlen gyffredinol ar gyfer cyflawni eich rhaglen ymchwil o fewn y cyfnod o ‘dalu ffioedd’ drwy ystyried eich anghenion am hyfforddiant ar gyfer eich ymchwil a’ch datblygiad proffesiynol.

5.2 Dylid cwblhau’r Adolygiad Cychwynnol yn llawn o fewn tri mis o ddechrau’r rhaglen, er gall yr Ysgol estyn y cyfnod i bedwar mis os ydych yn astudio yn rhan-amser <u>ac</u> os yw natur eich prosiect/Cynllun Ymchwil yn gofyn am y cyfnod estynedig hwn.

5.3 Disgwylir i chi ddangos eich gallu i lunio cwestiynau ymchwil hyfyw a Chynllun Ymchwil dichonadwy, yn ogystal â’ch gallu i wneud y gwaith angenrheidiol. Os oes unrhyw bryderon am eich cynnydd yn ystod y cam cynnar hwn, bydd yr Adolygiad Cychwynnol yn rhoi’r cyfle i ddatrys y problemau.

5.4 Bydd yn ofynnol i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cwblhau modiwl ar-lein Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil yn rhan o’ch Adolygiad Cychwynnol.

5.5 Hefyd, bydd yr Adolygiad Cychwynnol yn rhoi’r cyfle i chi a’ch goruchwylwyr godi unrhyw bryderon cynnar am y trefniadau academaidd neu ymarferol er mwyn ategu eich prosiect.

5.6 Bydd yr Adolygiad Cychwynnol yn seiliedig ar gyfarfodydd â’ch goruchwyliwr (goruchwylwyr) ac yn cynnwys cynllunio ar gyfer y dyfodol drwy eich Cynllun Ymchwil a Dadansoddiad o’ch Anghenion am Hyfforddiant. Bydd hefyd yn cynnwys myfyrio ar gam cyntaf eich rhaglen drwy asesu eich cynnydd.

5.7 Bydd eich Cynllun Ymchwil yn sail ar gyfer datblygu eich rhaglen waith, ac yn ddogfen allweddol y caiff eich cynnydd ei gymharu â hi. O ystyried ei bwysigrwydd, bydd angen cymeradwyo’r Cynllun Ymchwil yn rhan o’r Adolygiad Cychwynnol ar naill ai eich prif oruchwylydd ac ail oruchwylydd

neu oruchwylydd cynorthwyol, neu ar eich prif oruchwylydd gydag adolygydd annibynnol.

5.8 Bydd Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yr Ysgol yn ystyried yr adroddiadau a gyflwynir ar gyfer yr Adolygiad Dechreuol. Bydd hefyd yn penderfynu a ddylid cadarnhau dyfodol eich aelodaeth neu bennu sail dros dro iddi, yn unol â'r Weithdrefn Monitro Cynnydd (Adolygiad Cychwynnol).

5.9 Os ystyrir eich cynnydd yn anfoddhaol, bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn trefnu i gwrdd â chi yn unol â'r Weithdrefn Cynnydd Anfoddhaol.

## 6. Adolygiadau naw mis a blynyddol

6.1 Gofynnir ichi gyflwyno tystiolaeth ar gyfer eich Adolygiad Blynyddol cyntaf tua 32 wythnos ar ôl dechrau eich rhaglen, fel y bydd modd cwblhau'r digwyddiad monitro ymhen naw mis. Er mwyn osgoi drysni, yr Adolygiad 9 Mis a elwir yr Adolygiad cyntaf hwn. Wedi hynny, fe'i cynhelir bob 12 mis, a'r Adolygiad Blynyddol a elwir o hynny ymlaen.

6.2 Mae'r Adolygiad 9 Mis/Blynyddol yn gadael i'ch Ysgol wneud penderfyniad pwyllog am safon eich gwaith, eich gallu i gynhyrchu gwaith ysgrifenedig o'r safon ofynnol a chyfradd eich cynnydd yn ôl yr amserlen yn eich Cynllun Ymchwil neu eich Cynllun Cyflawni'r Traethawd. Os oes gennych chi neu gan eich goruchwylwyr unrhyw bryderon ynglŷn â'ch cynnydd neu'r trefniadau academaidd neu ymarferol sy'n ategu eich prosiect, mae'r Adolygiad 9 Mis/Blynyddol yn dod â'r pryderon hyn i'r amlwg hefyd.

6.3 Cynhelir yr Adolygiadau 9 Mis a Blynyddol gan Banel Adolygu a sefydlir gan eich Ysgol. Bydd y Panel yn gwneud argymhelliad i'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig ynghylch eich cofrestriad parhaus â'r rhaglen.

6.4 Bydd y Panel Adolygu'n cynnwys dau aelod o'r staff academaidd o leiaf. Mae'n rhain i un aelod o'r Panel o leiaf fod yn adolygwr annibynnol, heb gysylltiad â'ch prosiect. Ni all mwy nag un aelod o'ch tîm goruchwylio fod yn rhan o'r Panel. Bydd un aelod o'r Panel yn cadeirio.

6.5 Byddwch yn cwrdd â'ch Panel Adolygu er mwyn trafod y gwaith ysgrifenedig yr ydych wedi'i gyflwyno a'ch cynnydd cyffredinol. Bydd eich Ysgol yn diffinio fformat y cyfarfod â'r Panel Adolygu (e.e. a oes angen i chi wneud cyflwyniad ffurfiol), ac yn eich hysbysu am hyn ymlaen llaw. Fel arfer, cynhelir y cyfarfod wyneb yn wyneb, ond gallai eich Ysgol gytuno i ofyn i gynnal y cyfarfod drwy ddull electronig.

6.6 Eich Ysgol sy'n diffinio fformat y gwaith ysgrifenedig, ond mae'n rhaid iddo fod yn ddigon sylweddol i ateb y diben, a chydymffurfio ag unrhyw ganllawiau sydd wedi'u cymeradwyo ar lefel y Coleg.

6.7 Os nad ydych yn cwrdd â'r Panel Adolygu nac yn rhoi unrhyw resymau rhesymol am ohiriad, gallai'r Panel adolygu'r dystiolaeth yn eich absenoldeb.

6.8 Bydd y Panel Adolygu yn adrodd am ei asesiad o'ch cynnydd a safon eich gwaith. Bydd yn gwneud argymhelliad ynglŷn â'ch cofrestriad parhaus â'r rhaglen, yn unol â'r Weithdrefn Monitro Cynnydd (Adolygiad 9 Mis/Blynyddol) isod.

6.9 Gallwch ddarllen adroddiad y Panel fydd yn rhoi adborth i chi am safon eich gwaith a chyfradd eich cynnydd.

6.10 Pe ystyrid cyfradd neu safon eich gwaith yn anfoddhaol, byddai'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn trefnu i gwrdd â chi yn unol â'r Weithdrefn a'r Polisïau ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltu Anfoddhaol (Myfyrwyr Ôl-raddedig).

6.11 Gallai aelodaeth eich Panel Adolygu newid ar gyfer yr Adolygiad Blynyddol a gynhelir tua diwedd eich 'cyfnod talu ffioedd'. Efallai bydd adolygydd annibynnol, sy'n oruchwyliwr profiadol, yn cymryd lle arbenigwr pwnc achos byddai'r pwyslais ar eich cynghori ynghylch cyflawni eich traethawd. Disgwylir i chi roi gwybod am ddiweddariadau ynghylch eich cynnydd i'ch goruchwylwyr yn rheolaidd wrth gwblhau eich traethawd.

6.12 Ni ddisgwylir y cynhelir Adolygiad Blynyddol ym mlwyddyn olaf eich ymgeisyddiaeth, oherwydd dylech fod wedi cyflwyno eich traethawd, neu ar fin ei gyflwyno erbyn hynny. Yr eithriad yw lle rhoddir estyniad i'ch dyddiad cau (o 2 fis neu ragor) neu lle rydych chi'n ceisio am un yn unol â'r Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil).

6.13 Os rhoddir estyniad i'ch dyddiad cau, neu os ydych yn ailgyflwyno eich traethawd ar ôl arholiad, bydd eich Ysgol yn cytuno ar amserlen o'r pwyntiau monitro wedi'i theilwra yn ôl eich amgylchiadau.

## 7. Adolygiad Interim

7.1 Mae'r Adolygiad Cyfamserol yn cynnig cyfle i chi a'ch prif oruchwyliwr bwyso a mesur eich cynnydd ganol y cyfnod rhwng yr Adolygiadau Blynyddol (neu'r Adolygiad Naw Mis a'r Adolygiad Blynyddol cyntaf). Hefyd, mae'n gadael i chi a'ch Ysgol sicrhau'n hyderus eich bod yn cynyddu ar gyfradd foddhaol a bod y trefniadau academaidd ac ymarferol sy'n ategu eich rhaglen yn addas o hyd. Mae'n rhaid diweddaru'r Cynllun Ymchwil er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'ch prosiect. Os oes gennych chi neu gan eich prif oruchwylydd unrhyw bryderon, bydd yr Adolygiad Cyfamserol yn dod â'r problemau hyn i'r amlwg gyda'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig.

7.2 Bydd yr Adolygiad Cyfamserol yn cynnwys cyfarfod cynnydd â'ch goruchwylwyr, lle byddwch yn ystyried eich cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd,[2] yn ailwerthuso eich anghenion am hyfforddiant ac yn trafod diweddaru eich Cynllun Ymchwil. Bydd angen i chi a'ch prif oruchwylydd gyflwyno asesiad o'ch cynnydd yn annibynnol.

[2] Y chwe mis blaenorol, oni bai bod y cyfnod hwn wedi'i addasu.

7.3 Os bydd eich prif oruchwylydd yn cadarnhau bod eich cynnydd yn foddhaol, caiff dyfodol eich aelodaeth ei gadarnhau gan Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig.

7.4 Os na fydd eich prif oruchwylydd yn cadarnhau bod eich cynnydd yn foddhaol, bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn trefnu i gwrdd â chi a'ch goruchwylwyr i drafod y pryderon a phenderfynu ar y camau priodol nesaf. Bydd y rhain yn gytûn â'r Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil) neu'r Weithdrefn a'r Polisïau ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltu Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil), fel y bo'n briodol.

**Gweithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil**

## 8. Trosolwg

8.1 Dylid darllen y Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil ar y cyd â'r Polisi ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil sy'n sail iddi.

8.2 Mae'r Weithdrefn yn cynnwys system o adrodd, adolygu a rhoi adborth, sy'n seiliedig ar eich Cynllun Ymchwil.

8.3 Mae cydymffurfio â'r Weithdrefn Monitro Cynnydd yn orfodol ac mae'n gymwys i'r holl fyfyrwyr a gofrestrwyd ar gyfer graddau ymchwil,[3] gan gynnwys ymgeiswyr staff llawn-amser a rhan-amser.

8.4 Caiff digwyddiadau monitro eu llywio gan eich Cynllun Ymchwil a dogfennau ategol eraill, fel y Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant (TNA) ac adroddiadau asesu. Cynhelir adolygiad ffurfiol o safon eich gwaith a chyfradd eich cynnydd ar sail flynyddol (yn y lle cyntaf, bydd yr un cyntaf naw mis ar ôl dechrau eich rhaglen).

8.5 Rheolir y Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil drwy SIMS Ar-Lein.

## 9. Adolygiad Cychwynnol

*Gweler siart llif yr Adolygiad Cychwynnol*

9.1 Dylai'r Adolygiad Cychwynnol gael ei gwblhau'n llawn ymhen tri mis ar ôl dechrau eich rhaglen. Gall eich Ysgol estyn y cyfnod hwn i bedwar mis os ydych yn astudio'n rhan-amser a byddai cyfnod hwy yn briodol ar gyfer y ddisgyblaeth.

9.2 Yn ystod eich cyfarfodydd goruchwylio cynnar, byddwch yn trafod eich Cynllun Ymchwil yn ogystal â'r Dadansoddiad o'ch Anghenion am

[3] Ac eithrio: (a) rhaglenni strwythuredig iawn sy'n cynnwys llawer o elfennau a addysgir ac sydd ag amserlenni ar gyfer asesu: MRes, DClinPsy, DEdPsych; (b) PhD drwy Waith a Gyhoeddwyd.

Hyfforddiant (TNA) a fydd yn llywio ac yn ategu'r Cynllun Ymchwil. Caiff y Cynllun Ymchwil a'r Dadansoddiad eu cwblhau gyda mewnbwn gan eich prif oruchwylydd ac aelodau eraill o'ch tîm goruchwylio, lle y cytunir arno.

9.3 Hefyd, gofynnir i chi gwblhau Adroddiad Hunanasesu lle byddwch yn pwyso a mesur eich cynnydd yn ystod cam cyntaf eich rhaglen. Dylech atodi cofnod o unrhyw hyfforddiant, gan gynnwys y sesiwn ymsefydlu, yr ydych wedi'i wneud at eich hunanwerthusiad.

9.4 Gofynnir ichi lwytho'r canlynol i fyny i wefan SIMS:

.1 Eich Cynllun Ymchwil;

.2 eich Dadansoddiad o'ch Anghenion Hyfforddiant (TNA), gan gynnwys cofnod o hyfforddiant yr ydych wedi'i gael (gan gynnwys y modiwl gorfodol, Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil);

.3 Adroddiad Hunanasesu;

.4 rhestr o ddyddiadau'r cyfarfodydd â'ch goruchwylydd dros y cyfnod o dan sylw.

9.5 Gofynnir i chi gwblhau'r dasg hon ymhen deg wythnos o ddechrau'r rhaglen.

9.6 Gofynnir i'ch prif oruchwylydd gyflwyno Adroddiad Adolygiad Cychwynnol sy'n asesu eich cynnydd yn ystod cam cyntaf eich rhaglen. Dylai eich prif oruchwylydd drafod yr Adroddiad Adolygiad Cychwynnol â chi mewn cyfarfod goruchwylio.

9.7 Yn eu Hadroddiad Adolygiad Cychwynnol, gofynnir i'ch prif oruchwylydd gadarnhau bod y Cynllun Ymchwil wedi cael ei gymeradwyo gan ail oruchwylydd neu adolygydd annibynnol.

9.8 Gwnaiff eich prif oruchwylydd argymhelliad i'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig ynghylch (a) hyfywdra eich Cynllun Ymchwil; ac (b) eich cynnydd academaidd.

9.9 Bydd eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn cadarnhau eich bod wedi cwblhau eich Adolygiad Cychwynnol a bydd yn pennu un o'r canlyniadau hyn:

.1 "Mae'r Ysgol yn fodlon bod gan y myfyriwr Gynllun Ymchwil hyfyw a bod ei gynnydd hyd yn hyn yn foddhaol: **cadarnheir eu cofrestriad â'r rhaglen**"; neu

.2 "Nid oes gan y myfyriwr Gynllun Ymchwil hyfyw ar hyn o bryd, ond mae cynnydd eu hymchwil yn foddhaol fel arall: **gofynnir i'r myfyriwr adolygu ac ailgyflwyno** eu Cynllun Ymchwil"; neu

.3 “**Nid yw cynnydd y myfyriwr yn foddhaol,** a gweithredir y Polisi a’r Weithdrefn ar gyfer Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol”.

9.10 Lle penderfynir y dylid adolygu ac ailgyflwyno’r Cynllun Ymchwil, bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn amodi’r cyfnod a ganiateir: hyd at ddau fis ac ar un achlysur yn unig. Bydd eich cofrestriad parhaol â’r rhaglen yn amodol gan fod angen asesiad pellach.

9.11 Yn rhan o’r Adolygiad Dechreuol, cewch eich gwahodd i godi unrhyw faterion neu bryderon gyda’ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, os hoffwch wneud hynny.

9.12 Cewch wybod am bryd mae’r digwyddiad monitro wedi’i gwblhau a chwech gweld yr holl ddogfennau a lanlwythir yn SIMS Ar-lein.

## 10. Adolygiad 9 Mis/Blynyddol

*Gweler y siart llif Adolygiad Naw Mis/Blynyddol*

10.1 Yn rhan o’r Adolygiadau Naw Mis a Blynyddol, anogir i chi lanlwytho’r canlynol i SIMS Ar-lein:

.1 darn sylweddol o waith ysgrifenedig;

.2 Cynllun Ymchwil wedi’i ddiweddaru;

.3 Asesiad newydd o’ch anghenion am hyfforddiant (TNA) gan gynnwys cofnod o’ch hyfforddiant a’ch datblygiad hyd yma;

.4 Adroddiad Hunanasesu;

.5 rhestr o ddyddiadau'r cyfarfodydd â'ch goruchwylydd dros y cyfnod o dan sylw.

10.2 Gofynnir i’ch goruchwylydd arweiniol lwytho adroddiad am eich cynnydd (Adroddiad Cynnydd Goruchwylydd) i fyny i SIMS Ar-lein. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhad o’r gwaith yr ydych wedi’i wneud ac asesiad am a ydych ar y trywydd iawn yn unol â’ch Cynllun Ymchwil/Cyflawni’r Traethawd.

10.3 Yna, byddwch yn cwrdd â’ch Panel Adolygu er mwyn trafod y gwaith ysgrifenedig yr ydych wedi’i gyflwyno a’ch cynnydd cyffredinol, gan gyfeirio at eich Cynllun Ymchwil/Cyflawni’r Traethawd.

10.4 Ar ôl y cyfarfod, bydd y Panel Adolygu yn adrodd am ei asesiad o’ch cynnydd a safon eich gwaith, a gwnaiff un o’r argymelliadau canlynol i’ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig:

.1 **“Mae cynnydd y myfyriwr yn foddhaol**, ac os bydd yn parhau ar y gyfradd hon, ystyrir ei fod ar y trywydd iawn ar gyfer cyflwyno traethawd dichonol o fewn ei derfyn amser.”

.2 “**Ystyrir bod cynnydd y myfyriwr yn foddhaol ar y cyfan ond nodwyd un neu fwy o agweddau anfoddhaol bach.** Os delir â hwy'n ddigonol drwy addasu'r Cynllun Ymchwil, ni ddylai’r rhain oedi cyflwyno traethawd hyfyw o fewn y terfyn amser”
*(Bydd Cynllun Ymchwil diwygiedig yn cyfrif am y gwaith neu’r hyfforddiant ychwanegol sydd eu hangen neu’r angen am newid cyfeiriad. Cynhelir y monitro drwy oruchwyliaeth safonol a gwerthusir ar y pwynt adolygu nesaf)*

.3 **“Ystyrir bod cynnydd y myfyriwr yn foddhaol o dan yr amgylchiadau.** Mae'r Ysgol yn ymwybodol o'r amgylchiadau esgusodol y gellir mynd i’r afael â nhw ag addasiadau rhesymol a wnaed i’r Cynllun Ymchwil neu a allai gyfiawnhau cais am ymestyn dyddiad cyflwyno terfynol y myfyriwr”

.4 “**Nid oes modd cadarnhau bod cynnydd y myfyriwr yn foddhaol** ar hyn o bryd ac mae'r Panel wedi penderfynu gohirio ei argymhelliad. Bydd yn ofynnol i’r myfyriwr **adolygu ac ailgyflwyno** eu gwaith ysgrifenedig, eu Cynllun Ymchwil a/neu unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall, er mwyn i’r Panel eu hystyried ymhellach, ymhen mis ar ôl cyfarfod y Panel (neu ddeufis os oes angen ar gyfer myfyrwyr rhan-amser), ac ar un achlysur yn unig. Bydd y Panel yn penderfynu a oes angen cyfweliad pellach.”

.5 “**Nid yw cynnydd y myfyriwr yn foddhaol,** a gweithredir y Polisi a’r Weithdrefn ar gyfer Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol”.

10.5 Os bydd y Panel Adolygu’n cadarnhau bod eich cynnydd yn foddhaol (argymhelliad 10.4.1, 10.4.2 neu 10.4.3 uchod), caiff eich cofrestriad parhaus ei gadarnhau gan y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig.

10.6 Os na fydd y Panel Adolygu’n cadarnhau bod eich cynnydd yn foddhaol (argymhelliad 10.4.4 uchod), bydd dyfodol eich aelodaeth yn amodol nes bod asesiad pellach wedi’i gwblhau. Cewch eich annog i ail-lwytho’r ddogfen (dogfenni) i fyny i SIMS Ar-lein ymhen y cyfnod a ganiateir.

10.7 Lle bydd y Panel Adolygu yn argymell nad yw’ch cynnydd yn foddhaol (argymhelliad 10.4.5 uchod), bydd eich cofrestriad parhaol yn amodol ar ganlyniad y Weithdrefn a Pholisïau ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltu Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil).

## 11. Adolygiad Cyfamserol

*Gweler siart llif yr Adolygiad Cyfamserol*

11.1 Dylid darllen y Weithdrefn Adolygu Cyfamserol gyda’r datganiad polisi sy’n ei hategu.

11.2 Yn rhan o bob Adolygiad Cyfamserol, byddwch yn cwrdd â'ch prif oruchwylydd (ac aelodau eraill o'ch tîm goruchwylio fel y cytunir arno), er mwyn adolygu'r dogfennau sydd eu hangen am y digwyddiad monitro, cynnal Datganiad newydd ynghylch eich Anghenion am Hyfforddiant (TNA) a chytuno ar Gynllun Ymchwil wedi'i ddiwygio.

11.3 Gofynnir ichi lwytho'r canlynol i fyny i wefan SIMS:

.1 Cynllun Ymchwil wedi'i ddiweddaru;

.2 Asesiad newydd o'ch anghenion am hyfforddiant (TNA) gan gynnwys cofnod o'ch hyfforddiant a'ch datblygiad hyd yma;

.3 Adroddiad Hunanasesu lle y byddwch yn myfyrio ar eich cynnydd;

.4 rhestr o ddyddiadau'r cyfarfodydd â'ch cyfarwyddwyr dros y cyfnod o dan sylw.

11.4 Hefyd, cewch eich gwahodd i godi unrhyw faterion neu bryderon gyda'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, os hoffwch wneud hynny.

11.5 Gofynnir i'ch prif oruchwylydd gwblhau ffurflen adroddiad Adolygiad Cyfamserol, a bydd yn cadarnhau bod:

.1 "y myfyriwr yn parhau i wneud cynnydd boddhaol yn unol â'i Gynllun Ymchwil/Cynllun Cyflawni'r Traethawd"; neu

.2 "cynnydd y myfyriwr yn cael ei ystyried fel bod yn foddhaol, yn amodol ar addasiad i'r Cynllun Ymchwil/Cynllun Cyflawni'r Traethawd y cydgytunir arno, a fydd yn hwyluso'r broses o gwblhau'r rhaglen ymhen y cyfnod a ganiateir"; neu

.3 "cynnydd y myfyriwr ddim yn foddhaol".

11.6 Os bydd eich prif oruchwylydd yn cadarnhau bod eich cynnydd yn foddhaol, caiff dyfodol eich aelodaeth ei gadarnhau gan Gyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig.

11.7 Os bydd eich prif oruchwylydd yn argymell nad yw eich cynnydd yn foddhaol, bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn trefnu cyfarfod â chi a'ch goruchwylydd (goruchwylwyr) er mwyn trafod y pryderon a llywio'r camau priodol nesaf, yn gytûn â Gweithdrefn a Pholisïau ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltu Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil) a/neu'r Weithdrefn a'r Polisïau ynghylch Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil), fel y bo'n briodol.

## SIART LLIF YR ADOLYGIAD CYCHWYNNOL

Myfyriwr a goruchwylwyr yn cynnal Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant (TNA) mewn cyfarfodydd cynnar

↓

Myfyriwr yn cynhyrchu drafftiau o'r Cynllun Ymchwil, yr Adroddiad Hunanasesu a'r cofnod o hyfforddiant

↓

Prif oruchwylydd ynghyd â naill ai'r ail oruchwylydd neu adolygydd annibynnol yn adolygu'r Cynllun Ymchwil

↓

Myfyriwr a goruchwylwyr yn cwrdd er mwyn trafod y Cynllun Ymchwil, Hunanasesiad y myfyriwr ac Adroddiad Adolygiad Cychwynnol y goruchwylydd

↓

Myfyriwr yn lanlwytho Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant, adroddiad hunanasesu a chofnod o gyfarfodydd goruchwylio i SIMS Ar-lein

↓

Myfyriwr yn cael ei gyfeirio at ddull o leisio unrhyw bryderon wrth y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, ac at wasanaethau Cefnogi Myfyrwyr y Brifysgol

↓

Prif oruchwylydd yn lanlwytho'r Adroddiad Adolygiad Cychwynnol i SIMS Ar-lein

↓

Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn adolygu dogfennau'r Arolygiad Cychwynnol a lanlwythir i SIMS Ar-lein ac yn pennu canlyniad i'r Adolygiad Cychwynnol, yn gytûn â'r amrywiaeth o opsiynau a ganiateir gan y Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil

**SIART LLIF ADOLYGIAD NAW MIS/ADOLYGIAD BLYNYDDOL**

Myfyriwr yn paratoi ei waith ysgrifenedig i'w adolygu a'i Adroddiad Hunanasesu

↓

Myfyriwr yn paratoi cofnod hyfforddiant a'r Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant ac yn diweddaru'r Cynllun Ymchwil

↓

Myfyriwr a goruchwylwyr yn cwrdd i drafod cynnydd, y Cynllun Ymchwil a'r Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant

↓

Myfyriwr yn lanlwytho gwaith ysgrifenedig, cofnod o gyfarfodydd, Cynllun Ymchwil y cytunir arno a Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant i SIMS Ar-lein

↓

Myfyriwr yn cael ei gyfeirio at ddull o leisio unrhyw bryderon wrth y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, ac at wasanaethau Cefnogi Myfyrwyr y Brifysgol

↓

Prif oruchwylydd yn cynhyrchu Adroddiad Cynnydd Goruchwylydd gyda mewnbwn o dîm oruchwylio ac yn ei lanlwytho i SIMS Ar-lein

↓

Panel Adolygu yn adolygu'r gwaith ysgrifenedig, adroddiadau a dogfennau eraill sydd wedi'u lanlwytho i SIMS Ar-lein gan fyfyriwr a goruchwylydd

↓

Myfyriwr yn cwrdd â'r Panel Adolygu er mwyn cynnal Adolygiad Cynnydd

↓

Cynullydd y Panel Adolygu yn lanlwytho adroddiad ac argymhelliad y Panel i SIMS Ar-lein

↓

Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn ystyried adroddiad ac argymhelliad y Panel ac yn pennu canlyniad i'r Adolygiad, yn gytûn â'r amrywiaeth o opsiynau a ganiateir gan y Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil

**SIART LLIF YR ADOLYGIAD CYFAMSEROL**

Myfyriwr yn cynhyrchu Adroddiad Hunanasesu, yn paratoi Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant ac yn diweddaru’r Cynllun Ymchwil

↓

Myfyriwr a goruchwylwyr yn cwrdd er mwyn trafod Hunanasesiad, Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant a Chynllun Ymchwil y myfyriwr

↓

Myfyriwr yn lanlwytho Dadansoddiad o Anghenion am Hyfforddiant, Hunanasesiad a chofnod o gyfarfodydd goruchwylio i SIMS Ar-lein

↓

Myfyriwr yn cael ei gyfeirio at ddull o leisio unrhyw bryderon wrth y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, ac at wasanaethau Cefnogi Myfyrwyr y Brifysgol

↓

Prif oruchwylydd yn cwblhau Ffurflen Adroddiad Cyfamserol (ffurflen we) i SIMS Ar-lein

↓

Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn adolygu dogfennau’r Arolygiad Cyfamserol a lanlwythir i SIMS Ar-lein ac yn pennu canlyniad iddo, yn gytûn â’r amrywiaeth o opsiynau a ganiateir gan y Weithdrefn Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil

**Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.**

Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

| Disgwyliadau ar gyfer Safonau | Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd |
|---|---|
| Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol. | Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr. |
| Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. | O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono. |
| **Arferion Craidd o ran Safonau** | **Arferion Craidd o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod y trothwy o ran safonau ar gyfer ei gymwysterau yn cyd-fynd â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol. | Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel. |
| Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyflawni safonau y tu hwnt i'r trothwy y gellir ei gymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU. | Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau academaidd. |
| | Pan mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno'r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol. |
| | Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol. |
| **Arferion Cyffredin o ran Aafonau** | **Arferion Cyffredin o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. | Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. |
| | Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol. |